Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PUBLICATION

Welsh Language Partnership Council meeting: 7 December 2022

Minutes of a meeting of the Welsh Language Partnership Council on 7 December 2022.

First published: 19 May 2023

Last updated: 19 May 2023

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://www.gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-7-december-2022-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

Contents

Cofnod

Crynodeb o’r Pwyntiau Gweithredu

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.

Go to **https://www.gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-7-december-2022-html** for the latest version.

Get **information on copyright**.

Cofnod

Yn bresennol

Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Dyfed Edwards, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Dafydd Hughes, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Rhys Jones, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Rhian Huws Williams, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Meleri Davies, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Lowri Morgans, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Enlli Thomas, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Andrew White, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Samuel Williams, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwyr Is-Adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru

Seimon Brooks, Cadeirydd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Aelodau staff Is-adran y Gymraeg (arsylwi'n unig), Is-Adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://www.gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-7-december-2022-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

Ymddiheuriadau

Rosemary Jones, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Angharad Mai Roberts, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Croeso gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Cymraeg 2050

Croesawyd pawb i gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Cymraeg 2050.

Eitem 1: cyflwyniad ar ddata Cyfrifiad 2021 o ran y Gymraeg

Trosglwyddwyd yr awenau i ystadegwyr Llywodraeth Cymru roi cyflwyniad ystadegol ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ym maes y Gymraeg fel rhagarweiniad i Eitem 3.

Mae'r data diweddaraf ar gael: **Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)**.

[Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn ymuno â'r cyfarfod ac yn cymryd y gadair]

Eitem 2: gair o groeso gan y Gweinidog

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, i gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg.

Cafwyd diweddariad gan y Gweinidog ar ddatblygiadau Rhaglen Waith Cymraeg

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://www.gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-7-december-2022-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

2050 ers y cyfarfod diwethaf.

Eitem 3 : trafodaeth ar ganlyniadau'r cyfrifiad o ran y Gymraeg

Cafwyd trafodaeth yn dilyn y cyflwyniad ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ym maes y Gymraeg.

- Diolchwyd i'r ystadegwyr am eu cyflwyniad clir.
- Roedd y drafodaeth a ddilynodd yn cyfeirio at bwysigrwydd:
  - Deall yn well y gwahaniaeth a geir rhwng gwahanol arolygon sy'n mesur nifer y siaradwyr Cymraeg.
  - Parhau'n gadarnhaol gan mai megis dechrau oedd strategaeth Cymraeg 2050 cyn i COVID-19 daro.
  - Pwyllo a dadansoddi'r canlyniadau'n fanwl cyn gweithredu a chofio y bydd angen gwahanol ymyraethau mewn gwahanol ardaloedd daearyddol.
  - Rôl hollbwysig ysgolion cyfrwng Saesneg wrth greu siaradwyr Cymraeg hyderus yn y dyfodol.
  - Ystyried rôl y Cyfrifiad Ysgolion (PLASC) wrth dracio gallu iaith disgyblion ysgol a meddwl sut i ddilyn eu patrymau byw ar ôl gadael y byd addysg, meysydd fel gyrfa a symudedd.
  - Cofio nad yw'r Cyfrifiad yn mesur defnydd iaith a phwysigrwydd y targed hwnnw fel rhan o strategaeth Cymraeg 2050.

Eitem 4: cyflwyniad ar addysgu Cymraeg mewn cyd-destun Saesneg

Cafwyd cyflwyniad gan un o aelodau'r Cyngor am addysgu Cymraeg mewn cyd-destun Saesneg. Roedd y drafodaeth ddilynol yn canolbwyntio ar bwysigrwydd

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://www.gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-7-december-2022-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

sicrhau bod gan fyfyrwyr sy'n gadael addysg orfodol cyfrwng Saesneg y gallu, yr hyder a'r awydd i ddefnyddio'u Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol.

Bydd y gwaith hwn yn bwydo i mewn i'r Bil Addysg Gymraeg.

Eitem 5: cynllun gweithredu Cymru wrth-hiliol a strategaeth Cymraeg 2050

Cyflwynodd un o swyddogion Is-adran Cymraeg 2050 y diweddaraf ar yr elfennau o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sy'n berthnasol i weithredu Cymraeg 2050.

Cafwyd trafodaeth ar bwysigrwydd y maes hwn i'r Gymraeg.

[Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn gadael y cyfarfod a swyddog Is-adran Cymraeg 2050 yn cymryd y gadair]

Eitem 6: Comisiwn Cymunedau Cymraeg: Trafodaeth

Trosglwyddwyd yr awenau i Seimon Brooks, Cadeirydd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, i roi diweddariad ar waith y Comisiwn hyd yma.

- Anogwyd aelodau'r Cyngor i ymateb i'r **alwad am dystiolaeth**, boed hynny drwy'r ffurflen swyddogol, drwy e-bost neu drwy sgwrs ffôn gyda'r Cadeirydd.
- Cafwyd trafodaeth ar Arfor 2 a gofynnwyd am ddiweddariad.
- Cytunwyd y byddai Cadeirydd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Cyngor Partneriaeth yn ôl y galw yng nghyfarfodydd y dyfodol.

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://www.gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-7-december-2022-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

Cam Gweithredu 1

Yr Ysgrifenyddiaeth i geisio diweddariad ar raglen Arfor 2 gan swyddogion perthnasol y Llywodraeth a'i anfon dros e-bost at yr aelodau.

Cam Gweithredu 2

Cadeirydd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i roi diweddariad i'r Cyngor Partneriaeth yn ôl y galw yng nghyfarfodydd y dyfodol.

Eitem 7: unrhyw fater arall

- Trafodwyd sefyllfa is-grwpiau'r Cyngor Partneriaeth a chytunodd y Cadeirydd i drafod y mater gyda Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Cymraeg 2050 ac i adrodd yn ôl i'r Cyngor cyn y cyfarfod nesaf.
- Trafodwyd y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd anffurfiol gyda'r aelodau rhwng y cyfarfodydd gyda'r Gweinidog. Cytunodd yr Ysgrifenyddiaeth i gadw hwn mewn cof wrth drefnu cyfarfodydd y dyfodol.

Cam Gweithredu 3

Yr Ysgrifenyddiaeth i roi diweddariad ar sefyllfa is-grwpiau'r Cyngor cyn y cyfarfod nesaf.

Cam Gweithredu 4

Cytunodd yr Ysgrifenyddiaeth i gadw mewn cof y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd anffurfiol rhwng y cyfarfodydd gyda'r Gweinidog.

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://www.gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-7-december-2022-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

Crynodeb o’r Pwyntiau Gweithredu

Pwyntiau gweithredu

	Pwynt gweithredu	I bwy?	Wedi cwblhau?
1	Yr Ysgrifenyddiaeth i geisio diweddariad ar raglen Arfor 2 gan swyddogion perthnasol y Llywodraeth a’i anfon dros e-bost at yr aelodau.	Ysgrifenyddiaeth	Diweddariad wedi ei anfon ar 22 Mawrth 2023.
2	Cadeirydd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i roi diweddariad i’r Cyngor Partneriaeth yn ôl y galw yng nghyfarfodydd y dyfodol.		Bydd y diweddariad nesaf yn ystod cyfarfod 29 Mawrth 2023.
3	Yr Ysgrifenyddiaeth i roi diweddariad ar sefyllfa is-grwpiau'r Cyngor cyn y cyfarfod nesaf.	Ysgrifenyddiaeth	Bydd diweddariad llafar yn ystod y cyfarfod nesaf (29 Mawrth 2023).
4	Cytunodd yr Ysgrifenyddiaeth i gadw mewn cof y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd anffurfiol rhwng y cyfarfodydd gyda’r Gweinidog.	Ysgrifenyddiaeth	

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://www.gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-7-december-2022-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

This document may not be fully accessible.
For more information refer to our **accessibility statement**.

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://www.gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-7-december-2022-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.